Mothers' UNION
Gofal Cristnogol i Deuluoedd
Diocese of Bangor

Cylchlythyr Mawrth 2010

Gwasanaethu'r plwyf a'r gymuned ehangach drwy ein gwaith prosiect.

Mae aelodau UyM ledled Prydain yn ymwneud ag ystod eang o waith prosiect, gan gynnwys:grwpiau rhiantu

- grwpiau mam a'i phlentyn
- prosiectau a sefydlwyd i gefnogi pobl a effeithir gan garchariad
- canolfannau cyswllt plant
- gwaith ysbyty, cefnogaeth bedydd
- gwaith gyda pharau sy'n paratoi ar gyfer priodas, a llawer mwy.

Mae yna lawer o adegau pan y gallwn estyn allan i gynnig cymorth i eraill fel unigolion, ond weithiau y ffordd orau i estyn cefnogaeth yw drwy gynllun strwythuredig.

Mae Undeb y Mamau yn dathlu 10 mlynedd o Raglenni Rhiantu a Llythrennedd.

Yn 2000 ymatebodd Undeb y Mamau i'r galw drwy gychwyn ei Raglen Llythrennedd a Datblygiad (MULDP). Wedi ei gynllunio i fod yn gyfannol ac i wneud mwy na gwella llythrennedd pobl yn unig, mae'r rhaglen yn defnyddio sgiliau cyfrannol i alluogi aelodau cymuned, yn ddynion a merched, i ennill sgiliau llythrennedd a rhifedd tra'n trafod a chynllunio gweithredu ar achosion a heriau a wynebir ganddynt yn feunyddiol. Yn y modd yma mae'r gymuned gyfan yn cael ei hymrwymo i:

- Adnabod problemau a heriau
- Rhannu gwybodaeth leol a hyfedredd
- Cynllunio gweithredu lleol a lleihau gwrthdaro
- Cymryd rhan mewn cynlluniau AIDS/HIV lleol
- Sefydlu prosiectau cynyddu incwm

Ymhlith y gwledydd sy'n manteisio ar y cynllun hwn mae Burundi, Malawi a Sudan.

Passionate about Parenting

Cyfarfod ag Anghenion Rhieni

Mae Grwpiau Rhiantu yn ffordd wych i Undeb y Mamau gefnogi teuluoedd. Mae Rhaglen Rhiantu Undeb y Mamau yn gwrs Hyfforddi a achredwyd yn allanol sy'n arfogi gwirfoddolwyr ar gyfer y maes gwaith hwn.

YN ESGOBAETH BANGOR

Cwrs Hwyluswyr Rhiantu

Mae nifer o'n haelodau wedi eu cymwyso fel Hwyluswyr Cyrsiau Rhiantu a byddent yn barod i redeg cwrs yn eich plwyf.
Os oes gennych gr_p 'Mam a'i Phlentyn' neu unrhyw gyswllt arall â phlant ble y gallai fod croeso i gwrs rhiantu, cysylltwch â Kath Broadbent neu Carol Cooper os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt
Llywydd – Kath Broadbent 01248 410400
Ysgrifennydd - Carol Cooper 01766 513269
Trysorydd – Haydn Jones 01407 810018